# Taflen Ffeithiau ar Amddiffyn Plant

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch materion amddiffyn plant. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ymchwilio lle credir bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Fel arfer, dylech gwyno yn gyntaf i'r Cyngor o dan weithdrefn gwyno'r Gwasanaethau Plant. Ond gallwch gysylltu â ni'n uniongyrchol os yw'n ymddangos bod y Cyngor yn llusgo'i draed wrth ddelio â'ch cwyn.

## Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon edrych ar ymateb y Cyngor i bryderon bod plentyn mewn perygl. Dyma rai o'r materion y gallwn edrych arnynt:

Mae rhywbeth o'i le gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymchwilio i bryderon ynghylch amddiffyn plant a allai fod wedi effeithio arnoch chi'n bersonol. Er enghraifft:

- methu ymateb neu oedi yn ymateb i adroddiadau bod plentyn mewn perygl.
- ymchwilio'n anfoddhaol i'r achos a methu dilyn y gweithdrefnau priodol a chanllawiau'r llywodraeth.
- methu cyfathrebu â'r pobl berthnasol a chydweithredu ag asiantaethau eraill.
- adroddiadau anfoddhaol neu anghywir (ar wahân i adroddiadau a baratoir ar gyfer y llys).

Diffygion gyda rheoli'r gwaith o gynllunio dyfodol plentyn yn dilyn cynhadledd achos amddiffyn plant. Gallai'r diffygion hyn gynnwys:

- methu gweithredu argymhellion cynhadledd amddiffyn plant.
- dim cynllun boddhaol ar gyfer y plentyn, neu fethu gweithredu cynllun o'r fath.

Mewn rhai achosion gall yr Ombwdsmon gwestiynu penderfyniadau a wnaed gan weithwyr cymdeithasol.

## Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- edrych ar benderfyniad gan y Cyngor i ddwyn achos llys.

- edrych ar faterion y dylai'r llys fod wedi edrych arnynt. Os ydych yn anhapus gyda chanlyniad achos llys, ni all yr Ombwdsmon newid y penderfyniad hwnnw a dylech ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol. Mewn rhai achosion, byddwn efallai'n gallu edrych ar y mesurau a gymrodd y Cyngor cyn dwyn achos llys ac ar y gwasanaethau iddo eu darparu ar ôl i'r achos llys ddod i ben.

## Materion i gadw mewn cof

Mewn achosion amddiffyn plant, lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth a gallai hyn fod yn gyson â buddiannau'r oedolyn sy'n cwyno.

Gallai nifer o wahanol asiantaethau fod yn cyfrannu at y broses amddiffyn plant. Gall yr Ombwdsmon ond edrych ar gwynion yn erbyn y cyngor ac, mewn rhai amgylchiadau, ar berfformiad gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Gwybodaeth bellach

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, Ebrill 2008, i'w cael yn www.awcpp.org.uk. Mae'r gweithdrefnau hyn yn helpu i ddiogelu plant a hybu eu lles

Efallai y byddech hefyd yn gallu cael cyngor a chymorth gan **Grŵp Hawliau'r Teulu**, sy'n darparu gwasanaeth dros Gymru a Lloegr ac sy'n cynghori rhieni ac aelodau eraill o'r teulu pan fo angen gwasanaethau gofal cymdeithasol efallai ar eu plant. Gallwch eu ffonio ar **0808 801 0366** ac mae eu gwefan yn http://www.frg.org.uk/index.html

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

**Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ